# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

## RHAN 2 E+W

SAFONAU

## PENNOD 1 E+W

YMYRRYD YM MATERION RHEDEG YSGOLION A GYNHELIR

*Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru*

### 15 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgolion yn cael eu ffedereiddio E+W

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bwer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir ("yr ysgol sy'n peri pryder").

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw un o'r personau canlynol i ddarparu ar gyfer un neu fwy o'r trefniadau a nodir yn is-adran (3)—

- (a) awdurdod lleol;
- (b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir;
- (c) corff llywodraethu ffederasiwn.

(3) Dyma'r trefniadau—

- (a) ffedereiddio'r ysgol sy'n peri pryder ac un neu fwy o ysgolion a gynhelir;
- (b) ffedereiddio'r ysgol sy'n peri pryder a ffederasiwn sy'n bodoli eisoes;
- (c) ffedereiddio'r ysgol sy'n peri pryder a ffederasiwn sy'n bodoli eisoes ac un neu fwy o ysgolion a gynhelir;
- (d) pan fo'r ysgol sy'n peri pryder yn rhan o ffederasiwn, ffedereiddio'r ffederasiwn hwnnw ac un neu fwy o ysgolion a gynhelir;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 15 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(e) pan fo'r ysgol sy'n peri pryder yn rhan o ffederasiwn, ffedereiddio'r ffederasiwn hwnnw a ffederasiwn arall sy'n bodoli eisoes;

(f) pan fo'r ysgol sy'n peri pryder yn rhan o ffederasiwn, ffedereiddio'r ffederasiwn hwnnw a ffederasiwn arall sy'n bodoli eisoes ac un neu fwy o ysgolion a gynhelir;

(g) pan fo'r ysgol sy'n peri pryder yn rhan o ffederasiwn, bod yr ysgol yn ymadael â'r ffederasiwn hwnnw.

(4) Cyn rhoi cyfarwyddiad o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) yr awdurdod lleol,

(b) y cyrff llywodraethu sydd o dan sylw, ac

(c) yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

(5) Yn yr adran hon mae i "ffederasiwn" yr ystyr a roddir gan adran 21(1) o Fesur Addysg (Cymru) 2011.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 2 Pnd. 1 wedi ei eithrio (20.2.2014) gan 2010 c. 15, **a. 87(4)** (fel y'i mewnosodwyd gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 11(3)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag **ergl. 3**))

**C2** Rhn. 2 Pnd. 1: rhoddwyd pŵer i addasu (20.2.2014) gan 2011 nawm 7 a. 0018(01)(a) (wedi ei amnewid (C.) gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 13(3)(a)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag **ergl. 3**))

**C3** Rhn. 2 Pnd. 1 wedi ei addasu (20.2.2014) gan 1998 c. 30, **a. 19(12)** (fel e'i amnewid (C.) gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 3**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag **ergl. 3**))

**C4** Rhn. 2 Pnd. 1 wedi ei addasu (20.2.2014) gan 1988 c. 40, a. 219(3A) (fel y'i mewnosodwyd (C.) gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 1(3)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag ergl. 3))

**C5** Rhn. 2 Pnd. 1 wedi ei addasu (20.2.2014) gan 2002 c. 32, a. 34(7) (fel y'i diwygiwyd gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 6(2)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag ergl. 3))

**C6** Rhn. 2 Pnd. 1 cymhwyswyd (ynghyd â addasiadau) (20.2.2014) gan 2010 c. 15, a. 87(3)(a) (fel y'i mewnosodwyd gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 11(3)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag ergl. 3))

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I2** A. 15 mewn grym ar 20.2.2014 gan O.S. 2014/178, **ergl. 2(a)** (ynghyd ag ergl. 3)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 15 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- Pt. 3 Ch. 3A inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(7)
- s. 1(9A) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(2)(a)
- s. 38(2)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(a)
- s. 38(5)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(b)
- s. 39(1)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(4)
- Sch. 2 para. 19(2)(c)(i) word inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(12)(b)